Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MERCHER, 8FED TACHWEDD 2017**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD MERCHER, 15FED TACHWEDD, 2017** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 18FED HYDREF 2017.** 5 - 12

5. **CYFLWYNIAD GAN Y SCARLETS.**

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

7. **CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

   **7 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES - AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

   "Ni all gofalwyr fod mewn addysg lawn amser a hawlio Lwfans Gofalwyr hyd yn oed os ydynt yn gofalu am y 35 awr yr wythnos sy'n eu gwneud yn gymwys i gael y budd-dal hwn. A wnewch chi ymrwymo i lofnodi'r ddeiseb a lansiwyd yn ddiweddar gan ofalwyr ifanc Sir Gaerfyrddin i newid y rheol hon fel bod gan ofalwyr sy'n oedolion ifanc y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn?"

8. **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

   **8 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON:**

   "Gofynnaf i'r Cyngor hwn gadarnhau fy nghynnig, sef ein bod yn hedfan Baner yr Enfys uwchben adeiladau'r Cyngor Sir ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn ar Ddiwrnod Rhyngwladol Aids, fel symbol o'n cydsafiad gyda phobl HIV positif a'r rheiny yn Sir Gaerfyrddin sy'n byw gydag AIDS a'r holl liwiau a gynrychiolir gan y faner."

   **8 .2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS:**

   "Bydd un o bob pedair menyw yn dioddef trais neu gamdriniaeth ddomestig yn ystod eu bywydau ac un o bob chwe dyn. Mudiad rhyngwladol o ddynion sy'n sefyll yn gadarn yn erbyn trais yn erbyn menywod yw Ymgyrch y Rhuban

Gwyn. Mae dynion sy'n cefnogi'r ymgyrch yn gwisgo rhuban gwyn fel symbol eu bod yn gwrthwynebu trais yn erbyn menywod. 25 Tachwedd yw Diwrnod Rhyngwladol y Rhuban Gwyn. Mae achrediad y Rhuban Gwyn yn gydnabyddiaeth o'r gwaith y mae sefydliad yn ei wneud i gael dynion i siarad ar goedd yn erbyn trais gan ddynion yn erbyn menywod, ac i herio ymddygiad o'r fath. Felly bydd y Cyngor hwn yn:

a) Penodi Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i fod yn Llysgennad y Rhuban Gwyn

b) Rhoi mesurau ar waith er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin geisio cael Achrediad y Rhuban Gwyn erbyn Diwrnod y Rhuban Gwyn yn 2018.

Bydd y camau hyn yn helpu i leihau trais yn erbyn menywod ac yn ysgogi'r syniad o gymdeithas sydd wedi ei seilio ar gydraddoldeb a pharch."

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **AILBENODI AELODAU CYFETHOLEDIG O'R PWYLLGOR SAFONAU.** | 13 - 16 |
| **10.** | **DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y 23AIN HYDREF, 2017.** | 17 - 22 |
| **11.** | **COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)** | |

**11 .1 PWYLLGOR PENODI AELODAU - 20FED MEDI 2017;**

**11 .2 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 26AIN MEDI 2017;**

**11 .3 PWYLLGOR SAFONAU - 28AIN MEDI 2017;**

**11 .4 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 28AIN MEDI 2017;**

**11 .5 PWYLLGOR ARCHWILIO - 29AIN MEDI 2017;**

**11 .6 PWYLLGOR CRAFFU - DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 2AIL HYDREF 2017;**

**11 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 3YDD HYDREF 2017;**

**11 .8 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 19EG HYDREF 2017;**

**11 .9 PWYLLGOR PENODI 'B' - 3YDD HYDREF 2017;**

**11 .10 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 11EG HYDREF 2017;**

**11 .11 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 25AIN HYDREF 2017.**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2017

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry | A. Davies |
| C.A.. Davies | T.A.J. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | W.R.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds |
| P.M. Edwards | D.C. Evans | L.D. Evans | R.E. Evans |
| W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris |
| P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| J.D. James | R. James | D.M. Jenkins | J.P. Jenkins |
| G.H. John | C. Jones | B.W. Jones | D. Jones |
| G.R. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd |
| K. Madge | A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan |
| D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips | D. Price |
| J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson |
| L.M. Stephens | D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas |
| G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen | D.T. Williams |
| D.E. Williams | J.E. Williams | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
I. Jones, Pennaeth Hamdden
C. Daniels, Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 11:50am**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, G. Davies, S.L. Davies, D. Harries, A. James, G.H. John, T.J. Jones, K. Lloyd, S. Najmi, B. Thomas, A.D.T. Speake.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Liam Bowen a oedd yn ddiweddar wedi ennill gradd mewn Cymraeg a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau hefyd i'r Cynghorydd Bowen ar ei ddyweddïad yn ddiweddar.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i Gronfa Bensiwn Dyfed a oedd wedi llwyddo i ennill dwy wobr yn y Gwobrau Buddsoddi Cronfa Bensiwn Awdurdod Lleol a gynhaliwyd yn Llundain. Dyfarnwyd y Wobr am Weinyddu Cynllun a Gwobr Cronfa'r Flwyddyn o blith y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (o dan £2.5bn) i Gronfa Bensiwn Dyfed. Mynegwyd gair o werthfawrogiad i'r holl swyddogion a fu'n gysylltiedig â hyn am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Casglodd y Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y gwobrau oddi wrth y Cadeirydd.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i Sgiliau Adeiladu Cyfle a enillodd Wobr y Frenhines am Fenter ac Arloesi yn gynharach eleni i gydnabod eu Cynllun Prentisiaeth ar y Cyd sy'n torri tir newydd. Sefydlwyd Cynllun Prentisiaeth ar y Cyd Sgiliau Adeiladu Cyfle yn 2013 a hwn oedd un o'r cynlluniau cyflogi prentisiaid cydweithredol cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae Cyfle yn cynorthwyo oedolion ifanc i gael gwaith cynaliadwy yn y diwydiant adeiladu ac ar hyn o bryd mae'n cwmpasu'r crefftau canlynol: Gosod Brics, Plastro, Gwaith Saer, Gwaith Trydan, Gwaith Plymwr, Peintio ac Addurno, Cynnal a Chadw, Cyfrifyddu a Busnes a Gweinyddiaeth. Ymhellach, i gydnabod cefnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin tuag at Cyfle, cyflwynwyd gwobr replica i'r Cadeirydd gan yr Arglwydd Raglaw mewn seremoni yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru fis Medi diwethaf.

- Estynnwyd gair o werthfawrogiad i'r holl staff yn y Cyngor wedi iddynt frwydro yn erbyn y gwyntoedd cryfion iawn yn ddiweddar i sicrhau bod busnes yn mynd yn ei flaen fel arfer. Tynnwyd sylw'r Cyngor at waith yr Adran Briffyrdd, a fu'n delio â 34 digwyddiad unigol ar hyd a lled y Sir yn ystod y gwyntoedd cryfion a gwympodd goed a cheblau trydan. Cofnododd y Swyddfa Dywydd wyntoedd o hyd at 75 milltir yr awr. Cydnabuwyd staff rheng flaen y Cyngor a fu'n gweithio'n ddiflino i ailagor ffyrdd, y swyddogion oedd ar ddyletswydd, staff y Ganolfan Gyswllt ac Asiantiaid y Llinell Gofal a fu'n delio â nifer fawr o alwadau gan y cyhoedd.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i Miss Francesca Evans-Thomas, o Flwyddyn 8 Ysgol Bryngwyn, Llanelli, a oedd wedi ennill pencampwriaeth Cymru ym Mhencampwriaethau Chwyrlïo Baton Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghydweli. Mynegwyd pob lwc a dymuniadau gorau i Miss Evans-Thomas wrth iddi gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Chwyrlïo Baton y Byd yn Norwy yn nes ymlaen eleni.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr Jason Thomas o Glwb Pêl-droed Drefach a oedd wedi ennill gwobr Hyfforddwr Chwaraeon Cymunedol y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymunedol Cymdeithas Bêl-droed Cymru a hynny allan o 7000 o enwebiadau. Roedd y wobr hon yn wir gydnabyddiaeth o ymroddiad Mr Thomas dros yr 8 mlynedd diwethaf wrth greu a meithrin timau o chwaraewyr ifanc yn y Clwb.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â theulu'r Fonesig Mary Mansel Lewis, gweddw cyn-Arglwydd Raglaw Dyfed, Syr David Mansel Lewis.

- Tynnwyd sylw'r Cyngor ar lwyddiant yr Apêl Teganau Nadolig yn y blynyddoedd blaenorol, a fu'n rhoi help i bobl a oedd yn wynebu amserau ariannol anodd yn enwedig dros gyfnod y Nadolig. Yn debyg i'r hyn a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i Aelodau'r Cyngor roi cyfraniad at yr Apêl. Mynegwyd gair o werthfawrogiad i Reolwr-gyfarwyddwr Nolan UPV am ganiatáu i'r prosiect gael ei gynnal ar ei safle yn Nhre Ioan. Gofynnwyd i Aelodau'r Cyngor roi cyfraniad yn unrhyw un o'r mannau casglu a geir ledled y Sir gan gynnwys Neuadd y Sir, Tŷ Elwyn, Llanelli a Neuadd y Dref, Rhydaman.

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 20FED MEDI, 2017.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2017 yn gofnod cywir.**

**5. CYFLWYNIAD LLYSGENNAD CHWARAEON IFANC**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Carl Daniels, yr Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden a gyflwynwyd gan y Pennaeth Hamdden, Ian Jones. Gwahoddwyd yr Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden i roi cyflwyniad ar y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc.

Soniodd y Pennaeth Hamdden yn fyr wrth Aelodau'r Cyngor am y cefndir i waith Adain y Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden: Mae gan y Sir 8 canolfan hamdden sy'n cael eu defnyddio dros 1.5m o weithiau. Mewn ymateb i'r gwasgfeuon ariannol, mae'r gwaith i gynyddu'r lefelau incwm wedi golygu bod modd cadw mwy o wasanaethau, a berodd gynnydd o ryw £250k yn incwm y Gweithgareddau Dŵr dros y 4-5 mlynedd diwethaf sy'n debygol o arwain at incwm o dros £1m, a chynnydd o ryw £300k mewn Iechyd a Ffitrwydd sy'n debygol o arwain at incwm o dros £1m eleni. Yn ogystal â'r gwaith a wnaed mewn Canolfannau Hamdden câi cryn dipyn o waith ei wneud yn y gymuned ac mewn ysgolion. Roedd y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn enghraifft o'r gwaith a wnaed, a dim ond rhan oedd hyn o'r gwaith datblygu cymunedol ehangach oedd yn cael ei wneud ar gost i'r Awdurdod o fuddsoddi tua £26k y flwyddyn.

Daeth Richard Dando o Chwaraeon Cymru, Rowan Smith a Dyfrig Davis, disgybl ac athro o Ysgol Talacharn, a Jess Thomas o Ysgol Bro Myrddin gyda'r Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden i'r cyfarfod, a rhoesant bob un eu profiadau personol eu hunain o fod yn rhan o'r rhaglen.

Gan gydweithio â Chwaraeon Cymru, datblygwyd y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc, rhaglen sy'n arwain y sector yn Sir Gaerfyrddin, i gyflawni nifer o Amcanion Llysgennad Ifanc a oedd yn cynnwys:

- Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn Chwaraeon a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
- Hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol chwaraeon yn yr ysgol a'r gymuned leol trwy fod yn esiampl dda
- Bod yn llais y bobl ifanc o ran ymarfer corff a chwaraeon ysgol yn eu hysgolion a'u cymunedau

- Dod â chyffro ac ysbrydoliaeth digwyddiadau mawr i'w hysgolion
- Cael pob plentyn i wirioni ar chwaraeon am weddill ei oes.

Roedd y rhaglen yn cynnwys llwybr ar gyfer Llysgenhadon Ifanc ledled Cymru gan ddechrau ar lefel Efydd (blynyddoedd 5 a 6), Efydd+ (blynyddoedd 7, 8 a 9), Arian (14+ oed), Aur (blwyddyn 10 ac uwch) drwodd i lefel Platinwm ar lefel Genedlaethol. Nod y llwybr hwn oedd hyfforddi a datblygu cenhedlaeth o arweinwyr y dyfodol trwy roi i bobl ifanc y sgiliau a'r profiad i'w gwneud yn bobl ifanc gyflogadwy a chydnerth drwy chwaraeon a hamdden corfforol.

Sir Gaerfyrddin oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc Efydd, ac mae gan y Sir bellach rwydwaith o dros 300 o Lysgenhadon Ifanc sy'n darparu cymorth hyfforddi gwerthfawr i staff. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol yn yr Is-adran Hamdden am eu hymroddiad wrth iddynt yrru'r rhaglen yn ei blaen yn yr ysgolion.

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth allai Cynghorwyr ei wneud i helpu gyda llwyddiant parhaus y rhaglen?', dywedodd yr Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden y gallai'r Aelodau annog eu hysgolion lleol i fabwysiadu'r cynllun os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny. Ymhellach, os oedd yr ysgolion lleol yn ymwneud â'r rhaglen, roedd yr Aelodau'n cael eu hannog i gael rhagor o wybodaeth gan yr ysgol trwy ofyn iddi ddangos yr hyn oedd yn digwydd er mwyn codi proffil y gwaith oedd yn cael ei wneud.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden a'r cynrychiolwyr Llysgennad Ifanc am ddod i'r cyfarfod i roi gwybod i'r aelodau etholedig am y rhaglen a'i llwyddiant.

**6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**7. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

**7.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN PROSSER I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

Faint o staff a gyflogir naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gontractau dim oriau?

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

“Dyma gwestiwn a ofynnir yn eithaf rheolaidd gan ein cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, ac mae fy ymateb i chi heddiw yr un peth â'r ymateb hynny a roddir, yr un mor rheolaidd, i'r Undebau Llafur.


EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Mewn perthynas â rhan gyntaf eich cwestiwn yn ymwneud â chyflogaeth uniongyrchol, nid oes gennym unrhyw gontractau dim oriau, felly mae'r nifer hwnnw yn sero. Mae gennym, fodd bynnag, weithwyr achlysurol yr ydym yn galw arnynt i gyflawni rhai o'n gwasanaethau, yn ôl yr angen. Efallai y dylwn egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau, gan fod y termau 'contract achlysurol' a 'chontractau dim oriau' yn aml yn cael eu defnyddio y naill am y llall, a gall hyn beri dryswch.

Dan gontract achlysurol, yn gyffredin nid oes rhwymedigaeth ar y cyflogwr i gynnig gwaith i'r unigolyn ac, yn hollbwysig, nid oes rhwymedigaeth ar yr unigolyn i dderbyn y gwaith a gynigir. Yn eithaf aml nid yw'r gyd-rwymedigaeth hon yn codi, felly ystyrir bod yr unigolion yn 'weithwyr' ac nid yn 'gyflogeion'.

Mae contract 'dim oriau' yn wahanol i gytundeb gweithiwr achlysurol arferol yn yr ystyr nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y Cyflogwr i gynnig gwaith, ond fel rheol bod rhwymedigaeth ar yr unigolyn i fod ar gael, ac i dderbyn gwaith pan y'i cynigir.

O droi ein sylw at 'gyflogaeth anuniongyrchol' felly, gallaf gadarnhau bod ein Huned Gaffael, ar gyfer pob gweithgarwch Caffael y mae ei werth dros £25k, yn cynnal yr hyn a elwir yn Asesiadau Risg Cynaliadwy gyda'r swyddogion perthnasol o fewn yr adrannau sy'n caffael gwasanaethau, i sicrhau bod materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hasesu, eu deall a'u rheoli ym mhob penderfyniad caffael allweddol sy'n ymwneud â chaffael nwyddau a gwasanaethau. Caiff y rhain eu cynnwys yn ein Manyleb Gaffael. Un o'r meysydd yr ydym yn eu hystyried yw 'p'un a yw'r rhain yn golygu y gallai cyflogeion y contractwyr gael eu hecsbloetio?' Mae ein manyleb ar gyfer tendrau yn diogelu rhag bod hyn yn digwydd.

Mae un o'r ymholiadau cyson yr ydym wedi'i gael dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ymwneud â chontractau ‘dim oriau’ yn narpariaeth ein fframwaith Gofal Cartref a ddyfarnwyd gennym nôl yn 2015. Edrychom ar oriau contract ein cadwyn gyflenwi yn y maes hwn ac amodwyd gennym bryd hynny nad oedd y darparwyr a gyflogid ar y fframwaith hwn i gyflogi eu staff ar gontractau 'dim oriau' i gyflawni gofynion y Cyngor.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o'r Côd Ymarfer yn ymwneud â Chyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi, lle na ddefnyddir contractau dim oriau mewn modd annheg, ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr Caffael yn Sir Benfro drwy ein gwasanaeth peilot Caffael ar y Cyd, a chydag ein his-adran Adnoddau Dynol i bennu'r hyn sydd angen i ni ei roi ar waith i fodloni disgwyliadau'r Côd. Unwaith eto, er gwybodaeth, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r Côd erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

I orffen felly, y nifer ar gyfer dwy elfen eich cwestiwn yw sero.”

**Gofynnodd y Cynghorydd Prosser y cwestiwn atodol canlynol:-**

Gwn o amgylchiadau personol fod llawer o weithwyr gofal bellach yn cael eu cyflogi ar sail hunangyflogedig fel ffordd o gwmpas contractau dim oriau. A fyddai hynny'n cael ei ystyried wrth edrych ar gaffael contractau newydd?

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

Byddai hynny'n cael ei ystyried, byddai. Dan y côd ymarfer hwnnw y mae rhwymedigaeth arnom i gydymffurfio ag ef, mae ar gyfer y rheiny sydd heb ei weld, y penodiadau sydd ar ddod mewn cadwyni cyflenwi, o dan y côd hwnnw ar ôl i Mark Drayford roi'r cyflwyniad, mae yna 'Ymrwymiadau', mae yna 'Ffyrdd o weithredu'r Côd Ymarfer', yn ogystal â 'phwy y disgwylir iddynt gydymffurfio' ac rydym ni ar y rhestr honno fel y mae pob gwasanaeth a chorff cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn gwneud fel y dywedais yn fy ateb blaenorol. Yn benodol, mae hynny fel rheol o ganlyniad i'r gofal cartref yr ydym yn ei ddarparu ac mi ddywedais nôl ym mis Gorffennaf 2015, yn ystod gweinyddiaeth flaenorol y glymblaid rhwng Plaid a'r grŵp Annibynnol, dan arweinyddiaeth Plaid, rhoesom hynny ar waith i sicrhau ei fod yn digwydd ac rydym yn dal i fod ar lwybr gwahanol oherwydd rhaid i mi ddweud bod gofal cartref, o dan y gweinyddiaethau Llafur blaenorol, wedi cael ei allgontractio i'r sector preifat, lle aeth y ddarpariaeth fewnol o 70% i 24%. Rydym ar hyn o bryd yn gwrthdroi'r duedd honno ac yn dod â'r ddarpariaeth yn ôl yn fewnol. Nid yn unig yr ydym yn ceisio sicrhau bod y safonau moesegol yn aros o ran caffael yn y sector preifat, rydym yn ceisio gwrthdroi'r hyn a ddigwyddodd o dan weinyddiaethau Llafur blaenorol trwy ddod â mwy o'r gofal cartref hwnnw yn ôl yn fewnol.

## 8. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 8.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob James:-

Bod y Cyngor hwn:

a) yn cydnabod pwysigrwydd cael rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus fodern ac integredig er mwyn cynyddu cysylltedd cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin a mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael;

b) yn cefnogi'r egwyddorion a gyflwynir yng Nghynllun Metro Bae Abertawe;

c) yn ymrwymo i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol ynghylch system Fetro bosibl;

d) yn dadlau bod unrhyw gynnig yn y dyfodol yn cynnwys Dyffryn Aman a Chaerfyrddin i sicrhau bod y buddion i'w teimlo gan drefi a phentrefi ledled Sir Gaerfyrddin.

Eiliwyd y Cynnig.

Cynigiwyd y gwelliant canlynol i'r Cynnig gan y Cynghorydd Darren Price a chafodd ei eilio:-
Ar ôl pwynt bwled d), ychwanegu:-

e) Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi rhoi'r gorau i'r cynllun i drydaneiddio rheilffordd y Great Western hyd at Abertawe ac mai dim ond 1% o wariant cyfalaf Network Rail sydd wedi cael ei wario yng Nghymru ers 2011, er gwaethaf y ffaith bod gan Gymru 11% o holl rwydwaith traciau'r DU.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

f) Yn galw at Lywodraeth Cymru i lobïo Network Rail a Llywodraeth y DU ar iddynt gynyddu gwariant Network Rail yng Nghymru a chyflwyno system Metro ar gyfer Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin.

g) Yn croesawu'r cytundeb y daethpwyd iddi'r mis hwn rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru sydd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i archwilio'r posibilrwydd o system Metro newydd ar gyfer Cymoedd y Gorllewin a Bae Abertawe.

Dywedodd y Cynigydd (gyda chefnogaeth ei eilydd) ei fod yn hapus i dderbyn y newid a rhoddwyd cyfle iddo siarad o blaid y Cynnig gan amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd y Gwelliant siarad o blaid hynny, ac amlinellodd y rhesymau dros ei gyflwyno.

Gwnaed sawl datganiad o blaid y Cynnig, fel y'i diwygiwyd, ac yn dilyn hynny daeth yn Gynnig Terfynol a

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan y Cyngor fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.**

## 8.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JEFF EDMUNDS

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jeff Edmunds:-

Mae bod yn agored ac yn dryloyw yn hanfodol bwysig ym maes llywodraethu cyhoeddus, ac mae gofyn cwestiynau ac ymateb yn ystyrlon yn rhan o hynny.

Mae rheolau digon clir yn ein Cyfansoddiad sy'n ymwneud â'r cwestiynau a ofynnir yng Nghyfarfodydd y Cyngor ond credaf na roddir yr un eglurder yn ein cyfansoddiad o ran yr ymateb.

Hoffwn dynnu eich sylw at Reol 11.7.1 o Weithdrefn y Cyngor. (a).

Mewn ymateb i gwestiwn dywed y rheol hon: Gall ateb fod ar ffurf:-
‘Ateb llafar uniongyrchol.’

Ni chyfeirir at y cwestiwn, felly fy nghynnig yw bod y Rheol hon o Weithdrefn y Cyngor yn cael ei diwygio er mwyn bod yn fwy eglur.

Y cynnig yw bod Rheol 11.7.1 (a) o Weithdrefn y Cyngor yn cael ei diwygio ac yn darllen fel a ganlyn:-
‘Ateb llafar sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn ac yn gryno.’

Drwy roi ystyriaeth briodol a statws cyfartal i gwestiynau ac atebion, gellir ond cynyddu hyder y cyhoedd.

Eiliwyd y Cynnig.

Cafodd y cynigydd gyfle i siarad o blaid y Cynnig, ac amlinellodd y rhesymau dros ei gyflwyno.

Gyda golwg ar y broses bresennol gwnaed honiad bod Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad wedi'i sefydlu i ystyried unrhyw newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.  Gyda golwg ar y broses ac yng ngoleuni Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a oedd y ddigwydd y dydd Mercher nesaf, dywedodd y Cynigydd (gyda chefnogaeth ei eilydd) ei fod yn hapus i dynnu'r Cynnig yn ôl.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r eitem hon yn cael ei rhoi ar Agenda cyfarfod nesaf Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a oedd i ddigwydd ddydd Mercher 25 Hydref 2017.

**9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

**9.1. PENODI HYRWYDDWR DATBLYGU AELODAU.**

Er mwyn cydymffurfio ag adran 7 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, hyfforddi a datblygu'r Aelodau ac yn unol â'r canllawiau statudol, cafodd Awdurdodau Lleol eu hannog i benodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau.  Ystyriodd yr Aelodau adroddiad ar Benodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau a oedd ynghlwm wrth ddisgrifiad y rôl.

Nododd yr Aelodau y byddai'r Hyrwyddwr Datblygu Aelodau yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Mair Stephens, sef yr Arweinydd Datblygu Aelodau ar ran y Bwrdd Gweithredol, a swyddogion y Tîm Dysgu a Datblygu er mwyn nodi a hybu materion sy'n ymwneud â datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Rob James yn Hyrwyddwr Datblygu Aelodau.**

**10. AELODAETH PWYLLGORAU**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2 (2)(n), roedd yr enwebiadau canlynol gan y Grŵp Llafur wedi dod i law a **PHENDERFYNWYD**:

**10.1 nodi bod y Cynghorydd Kevin Madge yn cymryd lle'r Cynghorydd Bill Thomas ar y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau;**

**10.2 nodi bod y Cynghorydd Bill Thomas yn cymryd lle'r Cynghorydd Kevin Madge ar y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant**

Yn ogystal â’r uchod, darparwyd enwebiadau pellach gan y Grŵp Llafur.

**PENDERFYNWYD** hefyd:

**10.3 nodi bod y Cynghorydd Suzy Curry yn cymryd lle'r Cynghorydd Louvain Roberts ar y Pwyllgor Cynllunio;**

**10.4 nodi bod y Cynghorydd Louvain Roberts yn cymryd lle'r Cynghorydd Suzy Curry ar y Pwyllgor Craffu - Cymunedau.**

**CADEIRYDD** ____________________ **DYDDIAD** ____________________


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

## Y CYNGOR SIR
## 15FED TACHWEDD

| AILBENODI AELODAU CYFETHOLEDIG O'R PWYLLGOR SAFONAU |
|---|
| **Yr Argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>Penodi Mr Andre Morgan a Mr Alun Williams i dymor arall yn y swydd fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau. |
| **Rhesymau:**<br>Mae tymor presennol Mr Morgan a Mr Williams yn dod i ben ar 5ed Rhagfyr 2017. |
| **Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:**<br>Amherthnasol |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** NAC OES<br>**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** OES |

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y Cynghorydd E Dole (Arweinydd)

| | | |
|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth | | |
| Y Prif Weithredwr | | |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth: | Swyddi: | |
| Linda Rees-Jones | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | Rhifau ffôn: |
| Awdur yr Adroddiad: | | 01267 224018 |
| Robert Edgecombe | | Cyfeiriadau E-bost: |
| | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | RJEdgeco@sirgar.gov.uk. |

# EXECUTIVE SUMMARY
# COUNTY COUNCIL
# 15TH NOVEMBER 2017

| RE-APPOINTMENT OF CO-OPTED MEMBERS OF STANDARDS COMMITTEE | |
|---|---|
| Mr Andre Morgan and Mr Alun Williams were appointed as co-opted members of the Standards Committee by Full Council on the 13th July 2011<br><br>Their appointment was for an initial term of office of 6 years from the 6th December 2011 to the 5th December 2017.<br><br>Mr Morgan and Mr Williams are currently the most experienced members of the Standards Committee and Mr Morgan serves as its Chairman<br><br>Regulation 21 of the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 provides that co-opted members of a Standards Committee may be appointed to a further term of office of no more than 4 years.<br><br>Both Mr Morgan and Mr Williams have agreed to serve a further term of office.<br><br>It is therefore requested that both Mr Morgan and Mr Williams be appointed to a further 4 year term of office from the 5th December 2017 to the 4th December 2021. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **NO** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed:** ***L Rees-Jones*** **Head of Administration and Law**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

| I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below<br>Signed: *L Rees-Jones* Head of Administration and Law | | |
|---|---|---|
| 1. **Scrutiny Committee** Not applicable<br>2. **Local Member(s)** Not applicable<br>3. **Community / Town Council** Not applicable<br>4. **Relevant Partners** Not applicable<br>*5.* **Staff Side Representatives and other Organisations** *Not applicable* | | |
| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Legal file** | **DPSC-150** | **Legal Services, County Hall** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 23 Hydref 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, L.M. Stephens, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths a G. Davies

**Yn bresennol fel sylwedyddion:**
Cynghorwyr D.M. Cundy, J.S. Edmunds a R. James;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
N. Daniel, Penaeth Gwasanaeth TGCh
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol
I. Jones, Pennaeth Hamdden
S. Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
J. Owen, Rheolwr y Rhaglen TIC
J Tillman, Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 11.10 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd C. Campbell.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. COFNODION - 31AIN GORFFENNAF 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf, 2017 yn gywir yn amodol ar y newid isod:**

- **Cynnwys y canlynol yn rhestr y rhai a oedd yn bresennol:**
  **'Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
  **Cynghorwyr D.M. Cundy, E.E. Edwards, J.S. Edmunds, R. James a J. Prosser;'**
- **Cynnwys enw'r Cynghorydd D.M. Cundy o dan gofnod 6, 10,11 a 15 fel yr aelod a oedd yn mynegi pryder [cofnod 6], yn gofyn cwestiwn [cofnod 10 ac 11 a 14] ac yn gwneud sylw [cofnod 15];**
- **Dylid diwygio'r penderfyniad yng nghofnod 16 i ddarllen:**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo penodi aelodau i wasanaethu ar *Banelau Ymgynghorol y Bwrdd Gweithredol a* chyrff allanol fel y nodir yn yr atodlen a ddosbarthwyd…..'**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Nid oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys manylion ynghylch y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210 o 1 Medi 2019 pan fyddai'r adeilad ysgol newydd yn cael ei gwblhau.
Roedd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, yn ystod ei gyfarfod ar 28 Medi 2017 wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

Nododd swyddogion yr angen i ddiwygio'r rhestr o ymgyngoreion i gynnwys, er enghraifft, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi disodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac i gyfeirio at y ffaith bod yr arolwg o Ysgol Gynradd Gorslas cyn yr ymarfer bwrdd gwaith a gynhaliwyd yn 2015 wedi'i gynnal yn 2010.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod swyddogion yn dechrau proses ymgynghori ffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2017 ynghylch y cynnig uchod ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol.**

## 7. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn nodi manylion y cynnig i safoni darpariaeth addysg feithrin yr awdurdod lleol yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre.
Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Parc y Tywyn sydd ag ystod oedran rhwng 4-11 ac sy'n rhannu'r un dalgylch ag Ysgol Gymunedol Porth Tywyn ac Ysgol Pen-bre gyda'i gilydd, sydd ill dwy yn ysgolion cyfrwng Saesneg ag ystod oedran rhwng 3-11. Roedd y cynnig hwn felly'n ceisio safoni'r addysg feithrin yn yr ardal drwy sicrhau bod yr un lefel o ddarpariaeth yn cael ei darparu ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre.
Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2017, wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

Mynegwyd y farn y byddai modd gobeithio, i ymestyn darpariaeth o'r fath ar draws y Sir er mwyn sicrhau cysondeb.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod swyddogion yn dechrau proses ymgynghori ffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2017 ynghylch y cynnig uchod ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol.**

8. **ARBEDION EFFEITHLONRWYDD/CYLLIDEB 2017/18 MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR AR BOPETH SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y sefyllfa bresennol a'r effeithiau cysylltiedig petai'r arbedion cyllideb 2017/18 ar gyfer Cyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin y cytunwyd arnynt gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2017 yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd y darparwr gwasanaeth wedi nodi petai gostyngiadau o £35k yn cael eu gweithredu ar gyfer 2017/18 y byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth, yn benodol lleihau staffio gyda diswyddiadau gorfodol, cau neu leihau oriau agor a llai o gymorth ar gael ynglŷn â budd-daliadau a dyled cleientiaid. Roedd felly wedi gofyn am ailystyried y gostyngiadau ariannol hyn oherwydd y cyfnod byr o amser i'w gweithredu ac i ganiatáu cyfnod ymgynghori llawn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo gwrthdroi'r penderfyniad i dorri £35k yn 2017/18 a gofyn am adolygiad o'r cynigion ynghylch arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Cyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin o ran Strategaeth Cyllideb y Cyngor 2018/19.**

9. **GWEITHDREFN DDIWYGIEDIG AR GYFER CWYNION A CHANMOLIAETH GAN GWSMERIAID A PHOLISI DIWYGIEDIG AR GYFER GWEITHREDOEDD ANNERBYNIOL GAN ACHWYNWYR**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn manylu ar y diwygiadau arfaethedig i'r Weithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth a Pholisi Gweithredu Annerbyniol gan Achwynwyr presennol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r weithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth Cwsmeriaid diwygiedig a'r Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Achwynwyr diwygiedig.**

10. **ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2017 I MEHEFIN 30AIN 2017**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rheoli'r trysorlys o 1 Ebrill, 2017 hyd at 30 Mehefin, 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

11. **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2017, o ran 2017/2018.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £2,289k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £3,198k ar lefel adrannol. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn rhagweld tanwariant o £226k i ddiwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiad ynghylch monitro'r gyllideb yn cael ei dderbyn.**

12. **DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2017-18**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa derfynol y gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 ar y 30 Mehefin, 2017.

Yn adrannol rhagwelwyd gwariant net o £56,921k o gymharu â chyllideb net weithredol o £82,640k gan roi £25,719k o amrywiant. Cynghorwyd yr aelodau y byddai'r amrywiant yn cael ei gynnwys yn y blynyddoedd sydd i ddod, oherwydd byddai'n ofynnol cael y cyllid i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf.**

**13. MONITRO DYFROEDD YMDROCHI YN SIR GAERFYRDDIN**

Gan gyfeirio at Gofnod 5 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2017 a'r Rhybudd o Gynnig a fabwysiadwyd, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn amlinellu'r gofynion presennol o gyrraedd safon 'traethau ymdrochi dynodedig' a'r opsiynau o ran samplu ac arwyddion yn y dyfodol, yn enwedig o ran Moryd Byrri a Doc y Gogledd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 bod y rhaglen bresennol i fonitro dyfroedd ymdrochi yn dirwyn i ben ac eithrio monitro ansawdd y dŵr yn Noc y Gogledd, Llanelli;**

**13.2 adolygu arwyddion rhybuddio presennol i sicrhau eu bod yn gywir, yn briodol ac yn cyfeirio'r cyhoedd yn glir i'r traethau ymdrochi dynodedig swyddogol yn Sir Gaerfyrddin.**

**14. PENDODI'R CYNGHORYDD F. AKHTAR I PANEL YMGYNGHOROL YR AELODAU AR YR IAITH GYMRAEG YN LLE'R CYNGHORYDD S. CURRY**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL penodi'r Cynghorydd F. Akhtar i wasanaethu ar y Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg yn lle'r Cynghorydd S. Curry.**

**15. FFORWM Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y trefniadau ar gyfer Fforwm y Gymraeg mewn Addysg. Gan fod Bwrdd Gweithredol/Cyngor newydd roedd angen ystyried ac adolygu aelodaeth y fforwm hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadarnhau penodiad y Cynghorwyr Sir canlynol fel aelodau Fforwm y Gymraeg mewn Addysg:-**

**Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg yn ogystal â 6 aelod (2 o bob grŵp gwleidyddol):-**

**Plaid Cymru: Y Cynghorwyr Darren Price a Cefin Campbell;**

**Llafur: Y Cynghorwyr Dot Jones a Shahana Najmi;**

**Y Grŵp Annibynnol: Y Cynghorwyr Andrew James a Sue Allen.**

**16. CYNLLUN BUDDSODDI - GWEITHIO YSTWYTH**

Yn dilyn cofnod 8 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017 pan gafodd Polisi Gweithio Ystwyth diwygiedig ei gymeradwyo, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn nodi'r goblygiadau o ran costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r prosiect ar draws yr awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd D. Cundy ynghylch sut y byddai modd sicrhau'r arbediad blynyddol o £481k , cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau at yr atodiadau yn yr adroddiad.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Polisi yn mynd yn ei flaen mewn modd pwyllog gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**16.1 cymeradwyo cyfanswm cyllid o £1.9 miliwn dros 4 blynedd ariannol lle bydd angen cyfanswm buddsoddiad o £405k ar gyfer 17/18 a £861k ar gyfer 18/19 i gefnogi elfennau cynllun cyflawni'r prosiect gweithio ystwyth yn ymwneud ag eiddo, TG a rheoli prosiect gyda'r nod o arbed cyfanswm o £481k bob blwyddyn a £2.433m ar ôl 5 mlynedd;**

**16.2 cymeradwyo cynigion ar gyfer ariannu'r buddsoddiad cyfalaf fel yr amlinellwyd yn y Goblygiadau Ariannol, gan gynnwys y defnydd o Gronfa Datblygu'r Cyngor i ariannu'r gofyniad cyfalaf o £405k ar gyfer 2017/18;**

**16.3 helpu i lywio'r Strategaeth Swyddfeydd ddiwygiedig ar gyfer yr Awdurdod drwy gytuno ar ba adeiladau gweinyddol y dylai'r cynllun cyflawni gweithio ystwyth ganolbwyntio arnynt a pha adeiladau y dylid eu rhyddhau, mewn egwyddor, o ganlyniad i effaith y dull ystwyth o weithio. Fodd bynnag, rhoddir cyfarwyddyd i swyddogion i fod yn hyblyg yn eu hymagwedd ac yn agored i gyfleoedd os byddant, ac wrth iddynt godi;**

**16.4 cyfarwyddo swyddogion i adroddiad ymhellach ar weithredu'r cynllun cyflawni.**

**17. CYNNIG I GAEL GWARED AR FFIOEDD MYNWENTYDD AR GYFER CLADDU PLANT HYD AT, AC YN CYNNWYS, 18 OED**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo hepgor ffioedd claddu ar gyfer plant hyd at a chan gynnwys plant deunaw mlwydd oed yn unol ag awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru yn dilyn ymgyrch ddiweddar gan yr AS Carolyn Harris. Nodwyd y byddai hepgor y ffioedd hyn yn cael ychydig iawn o effaith ariannol ar yr Awdurdod.
Cafodd y cynnig ei groesawu gan y Bwrdd ac awgrymwyd y dylid ei ymestyn i gynnwys hepgor ffioedd claddu ar gyfer plant marw-anedig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr holl ffioedd mewn perthynas â chladdu plant, gan gynnwys plant marw-anedig, hyd at a chan gynnwys plant deunaw oed yn cael eu hepgor.**

**18. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2016/17**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2016/17 a oedd yn cynnwys adroddiad cynnydd yr ail flwyddyn ar Strategaeth Gorfforaethol 2015-20, y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2016/17 a'r Adroddiad Blynyddol llawn.

Pan gyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol yn 2015/20 cytunwyd y byddai adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gynhyrchu a fyddai'n pennu 24 o fesurau canlyniadau er mwyn barnu cynnydd yr Awdurdod yn eu herbyn. Byddai'r Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ar gyfer 2018/19 gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod ein Hamcanion Llesiant yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol.

Er y cyfunwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn yr un ddogfen yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd y dogfennau hyn eu gwahanu eleni oherwydd roedd yn ofynnol i'r Awdurdod, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyhoeddi Amcanion Llesiant yr Awdurdod erbyn 31 Mawrth ac felly roedd yn gwneud synnwyr cyhoeddi'r Cynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ar y cyd â nhw. Ni fyddai wedi bod yn bosibl llunio'r Adroddiad Blynyddol cyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd ei fod yn ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiadau blaenorol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Adroddiadau.**

**19. RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD GWEITHREDOL**

Bu'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith a luniwyd drwy gydgysylltu â'r holl adrannau a Rheolwr Busnes y Bwrdd Gweithredol a oedd yn tynnu sylw at y prif benderfyniadau polisi a chyllidebol oedd i'w gwneud dros y 12 mis nesaf. Nodwyd y byddai'r rhaglen yn dal i gael ei hadolygu a'i chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn gan sicrhau y byddai rhaglen gyfredol ar waith yn barhaus.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod y Flaenraglen Waith a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo i'w chyhoeddi.**

**20. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**21. Y GANOLFAN DDARGANFOD, DOC Y GOGLEDD, LLANELLI.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar yr opsiynau o ran defnydd yn y dyfodol a gweithrediad y Ganolfan Ddarganfod yn Noc y Gogledd, Llanelli, yn dilyn dull digymell gan drydydd parti.

Cynghorwyd y Bwrdd y byddai'r diddordeb gan y sector preifat, petai hyn yn symud ymlaen, yn rhyddhau'r Cyngor o'r holl gyfrifoldeb rheoli a chynnal a chadw ar gyfer yr adeilad yn y dyfodol ac yn arwain at arbediad cost o ryw £45,000 y flwyddyn. Byddai'r lleoliad gwybodaeth i ymwelwyr a'r toiledau cyhoeddus yn parhau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL symud y cytundeb tir yn ei flaen gyda'r trydydd parti i gymryd prydles newydd dros yr adeilad cyfan, yn amodol ar y preswylwyr presennol yn ildio eu buddiannau ar yr un pryd.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales